**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg**
**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into Implementation of education reforms**

**IER 34**
**Ymateb gan: Llywodraeth Cymru**
**Response from: Welsh Government**

---

# Rhoi'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar Waith

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant i bob plentyn a pherson ifanc yn un o ddibenion craidd diwygiadau addysg yng Nghymru. Ar hanner ffordd drwy'r ail flwyddyn weithredu, mae amrywiaeth o dystiolaeth a gweithgareddau monitro yn mynd rhagddynt i ddeall y cynnydd sy'n cael ei wneud i roi'r system ADY ar waith (y Ddeddf ADY a'r Cod ADY a'r rheoliadau cysylltiedig) ar anghenion dysgwyr a'u teuluoedd.

1.2. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ac yn comisiynu nifer o ffynonellau o dystiolaeth i fonitro'r ffordd y rhoddir y system ADY ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY, Estyn yn ei rôl fel arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY Dros Dro, Arweinydd Gweithredu ADY Ôl-16, Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, SNAP Cymru a'r Bwrdd Recriwtio a Chadw Athrawon. Mae'n ychwanegol at yr hyn sy'n deillio o'r adroddiad ar "ymchwil ar weithrediad cynnar" a gyhoeddwyd ar 27 Ebrill. Mae'r papur hwn yn cyfeirio at ymgysylltu, adborth a thystiolaeth gan y rhanddeiliaid hyn.

1.3. Rydym wedi comisiynu Arad Research i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r system ADY. Dechreuodd y contract ymchwil am bedair blynedd ym mis Ionawr 2023 a bydd yn asesu'r ffordd y rhoddir y system ADY ar waith a'r ffordd y cyflawnir amcanion polisi. Bydd yr ymchwil hefyd yn ystyried goblygiadau rhoi'r diwygiadau ar waith o ran costau ac yn nodi unrhyw effeithiau sy'n dod i'r golwg. Bydd y broses iterus hon yn cynnig cerrig milltir adolygu allweddol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol i ymateb yn briodol i'r dystiolaeth sy'n dod i'r golwg mewn perthynas â rhoi'r system ADY ar waith.

## 2. Cynnydd ar roi'r system ADY ar waith

### Trosolwg

2.1. Mae Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb yn amlinellu ein map ffordd i ailosod ein gweledigaeth ar gyfer system addysg gynhwysol. Dileu rhwystrau fel y gall pob dysgwr, o bob oedran, yn yr ystafell ddosbarth, ar-lein ac

yn y gwaith, sicrhau cyfleoedd a deilliannau addysg rhagorol – drwy nodi cynnar, cymorth a chamau gweithredu wedi'u targedu.

2.2. Nod y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf ADY, gyda'i gilydd, yw trawsnewid y disgwyliadau, y profiadau dysgu a'r deilliannau i blant a phobl ifanc. Mae'r naill a'r llall yn pwysleisio system addysg gynhwysol sy'n cydbwyso tegwch mynediad i'r cwricwlwm i bob dysgwr a diwallu anghenion dysgwyr unigol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio i godi dyheadau pob dysgwr, a bydd darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn cael ei chynllunio a'i nodi mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) i gefnogi dysgwyr na ellir diwallu eu hanghenion heb gymorth ychwanegol.

2.3. Dechreuwyd rhoi Deddf 2018 ar waith ar 1 Medi 2021 gyda'r system ADY yn cael ei chyflwyno'n raddol dros gyfnod o bedair blynedd hyd at fis Awst 2025. Mae plant yn symud i'r system ADY mewn grwpiau dros y pedair blynedd.

2.4. Mae'r sector addysg wedi gwneud cryn gynnydd i baratoi ar gyfer y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'i rhoi ar waith ochr yn ochr â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

2.5. Canfu adroddiad blynyddol cryno Estyn ar gyfer 2021-22 fod darparwyr, yn gyffredinol, wedi parhau i wneud cynnydd cyson tuag at roi'r diwygiadau i anghenion dysgu ychwanegol ar waith ac wedi croesawu llawer o'r agweddau ar y newidiadau i'r dull gweithredu. Nodir cynnydd cadarnhaol, o ran ymgorffori arferion cynhwysol i'r ysgol gyfan, cynllunio i ddiwallu anghenion pob dysgwr, a gwella lefelau cyfranogi ac ymgysylltu â phlant a'u teuluoedd. Yn bwysig ddigon, mae arwyddion cynnar bod newid systemataidd o ran arferion sy'n diwallu anghenion dysgwyr drwy addysgu gwahaniaethol fel mater o drefn.

**Symud plant ag ADY sy'n galw am DDdY o dan y Ddeddf ADY**

2.6. Ar 20 Mawrth 2023, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg estyniad i'r broses o roi'r Ddeddf ADY ar waith o dair blynedd i bedair blynedd, er mwyn ymateb i bwysau llwyth gwaith, creu mwy o hyblygrwydd, a diogelu ansawdd ymarfer, cynlluniau, a darpariaeth sy'n diwallu anghenion dysgwyr.Roedd hyn mewn ymateb i adborth dros y chwe mis diwethaf gan Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY), awdurdodau lleol, penaethiaid, undebau a darparwyr yn y trydydd sector sydd wedi dweud wrthym fod angen mwy o amser i symud dysgwyr o AAA i ADY ac ymgorffori newid effeithiol.

2.7. Drwy ymestyn y broses hon, mae hyn yn golygu y bydd plant a oedd yn mynd i symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2024, yn symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2025 erbyn hyn. Nid effeithir ar hawl plant, a'u rhieni, i ofyn am i blentyn symud i'r system ADY – sy'n golygu y gall plant sydd am symud i'r system ADY ofyn am gael gwneud hynny o hyd.

2.8. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol yn nodi bod addasiadau helaeth wedi cael eu gwneud gan bob ALl i ddarparu ar gyfer y ffordd newydd o weithio. Mae bron pob un ohonynt wedi gwneud defnydd da o gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru er mwyn ehangu'r gweithlu cyn y gofynion cynyddol a ragwelir o ganlyniad i gyflwyno'r ffordd newydd o weithio, yr agweddau gweinyddol cynyddol sy'n gysylltiedig â sefydlu prosesau a systemau newydd, a hefyd y gwaith o gynnal y system ADY a'r system AAA ar yr un pryd. Fodd bynnag, bu angen i'r rhan fwyaf o'r ALlau sicrhau cyllid craidd ychwanegol gan yr ystyrir bod y newidiadau sy'n angenrheidiol yn rhai hirdymor nad ydynt yn ymwneud â'r broses weithredu yn unig.

2.9. Mae bron pob AALl yn hyderus yn ei allu i reoli'r broses o symud y grwpiau blwyddyn gofynnol yn ystod blwyddyn 2, ond maent wedi nodi pryderon ynglŷn â rheoli gofynion y drydedd flwyddyn i adolygu'r CDUau a greir y flwyddyn hon a symud y garfan sy'n weddill o'r system AAA i'r system ADY.

2.10. Mae ALlau yn nodi bod y gwaith o gwblhau proses y CDU o fewn yr amserlen a ragnodwyd yn aml yn heriol ac mae llawer o'r ALlau yn nodi eu bod yn colli terfynau amser cwblhau. Mae pob ALl yn rhoi blaenoriaeth i ansawdd yn hytrach na chydymffurfio â therfynau amser ac maent yn rhoi sylw priodol i greu cynlluniau ystyrlon sydd wir yn canolbwyntio ar yr unigolyn lle mae dysgwyr a'u rhieni yn cael cyfle i fynegi eu barn ar bob agwedd ar y broses gwneud penderfyniadau.

**Diwygio'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ochr yn ochr â'i gilydd**

2.11. Mae system addysg gynhwysol yn un lle mae ysgolion yn gwrando ar anghenion dysgwyr ac mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i gyfranogi'n llawn mewn addysg a lle mae dull lleoliad cyfan yn cael ei fabwysiadu i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Dylai cwricwlwm ysgol godi dyheadau pob dysgwr ac ymateb i anghenion unigolion, ac felly dylai gefnogi'r broses o adnabod, cynllunio a chynnydd i ddysgwyr ag ADY.

2.12. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig hyblygrwydd i ysgolion ac athrawon gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o anghenion ac amgylchiadau eu holl ddysgwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, gan ystyried cyfle cyfartal wrth roi cymorth ac ymyriadau ar waith neu wneud addasiadau rhesymol.

2.13. Mae CDU yn nodi darpariaeth sy'n cyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol go iawn sy'n cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at sefyllfa lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cyflawni ei lawn botensial. Bydd dysgwyr ag ADY yn cael CDU pan fydd angen DDdY arnynt.

2.14. O ran cynnydd ac asesu, mae'r trefniadau newydd yn gofyn i ysgolion ddeall a yw grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir, gan gynnwys y rhai ag ADY.

2.15. Y llynedd, canfu adroddiad blynyddol Estyn[1] fod bron pob darparwr, erbyn mis Gorffennaf 2022, wedi llwyddo i ddechrau'r broses o adnabod y dysgwyr hynny y mae angen ymyriad ADY arnynt a mapio anghenion darpariaeth gyffredinol i ddysgwyr eraill. Mae bron pob darparwr yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran diwygio ei ddarpariaeth i fodloni gofynion y Cod ADY.

2.16. Mae'r ymchwil cynnar ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi adborth gan uwch-arweinwyr ysgolion cynradd ar fanteision y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n rhoi cyfle iddynt hyrwyddo cynwysoldeb i ddysgwyr ADY a dysgwyr sy'n agored i niwed a chanolbwyntio arno'n well nag y gwnaeth y cwricwlwm blaenorol, a hynny ar adeg pan fydd hyn yn hollbwysig. Maent yn gweld bod dysgwyr, a oedd yn aml yn mynd i'w cragen yn y gorffennol, yn gallu aros yn yr ystafell ddosbarth, a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu gyda chymorth yn yr ystafell ddosbarth.

2.17. At hynny, mae'r ymchwil ar weithredu'n gynnar yn awgrymu gwelliannau ehangach i ymarfer sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Roedd uwch-arweinwyr yn teimlo eu bod bellach yn canolbwyntio ar y dysgwr yn well wrth gynllunio'r cwricwlwm, gyda hyblygrwydd i deilwra cymorth yn ôl anghenion dysgwyr. Eu teimlad oedd bod mwy o ffocws ar weithgarwch llais y dysgwr, a oedd bellach yn cael ei ystyried yn fwy canolog i'r broses o gynllunio'r cwricwlwm, a dulliau mwy unigoledig o fonitro cynnydd dysgwyr yn cefnogi addysg gynhwysol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Bydd y gwerthusiad o ADY yn ystyried yr ymchwil ar weithrediad cynnar yn fanylach.

### Y Blynyddoedd Cynnar

2.18. Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddynodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar i fod yn gyfrifol am gydgysylltu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Maent yn chwarae rôl allweddol i hwyluso'r broses o nodi anghenion yn gynnar, gan sicrhau bod y ddarpariaeth gywir yn cael ei nodi'n gynt, a bod ADY yn cael eu hatal rhag datblygu neu waethygu.

2.19. Mae Estyn yn nodi bod rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar wedi ei gwneud yn bosibl i bron bob awdurdod wneud cynnydd ar roi'r Ddeddf ADY ar waith. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn fwy hyderus ynglŷn â'r system am fod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, gan

[1] Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Prif Arolygydd | Estyn (llyw.cymru)

gynnwys drwy gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae unrhyw rwystredigaethau wedi codi'n bennaf ynghylch camgyfleu gwybodaeth am y system ADY newydd, gyda'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu datrys yn gyflym.

2.20. Mae awdurdodau lleol wedi nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth. Nodwyd hyn ym mhob grŵp oedran, ond mae wedi bod yn achos pryder penodol yn y blynyddoedd cynnar mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac yn enwedig cyfathrebu cymdeithasol.

2.21. Mae ‘Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu’ Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'i dargedu. Drwy sicrhau ein bod yn nodi anghenion yn gynnar ac yn rhoi'r cymorth cywir, gallwn leihau'r galw am wasanaethau arbenigol a rhyddhau adnoddau i gefnogi dysgwyr ag anghenion mwy arbenigol, gan gynnwys ADY.

2.22. Amcan 4 o'r cynllun Siarad gyda Fi yw uwchsgilio’r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu. Mae adnodd llwybr hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru gyfan i blant 0-5 oed wedi cael ei gyflwyno er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Gall lleoliadau ledled Cymru fanteisio ar nifer o opsiynau hyfforddiant ar leferydd, iaith a chyfathrebu ac rydym wrthi'n sicrhau bod y rhain ar gael yn Gymraeg. Mae gennym tudalen benodol Siarad gyda fi i ymarferwyr sy'n darparu amrywiaeth eang o adnoddau i helpu ymarferwyr i roi cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

2.23. Mae Cwlwm (Childcare Wales Learning and Working Mutually) yn parhau i helpu Llywodraeth Cymru i roi'r Ddeddf ADY ar waith a'i gwerthuso, gan sicrhau bod y sector yn cael adnoddau, gwybodaeth a chyngor cyfredol i'w alluogi i roi'r ddeddf ar waith yn effeithiol. Mae materion wedi cael eu codi mewn perthynas â'r angen am hyfforddiant priodol a pharhaus ar gyfer pob lleoliad, gan gynnwys gwarchodwyr plant. Mae rhai arferion da wedi cael eu nodi, gyda gwarchodwyr plant yn defnyddio proffiliau un dudalen i gefnogi'r plant y maent yn gofalu amdanynt, parhau i gynnwys eu teuluoedd a chefnogi'r broses o bontio i leoliadau eraill.

**Rhoi ADY ar waith i ddysgwyr ôl-16**

2.24. Bydd y broses o roi ADY ar waith i ddysgwyr ôl-16 yn dechrau ym mis Medi 2023. Bydd pobl ifanc yn llifo drwodd i'r system ADY dros y ddwy flwyddyn academaidd nesaf. Bydd y rhai sydd ym Mlwyddyn 11 ar hyn o bryd yn symud i addysg a hyfforddiant ôl-16 gyda'u CDUau ar waith ym mis Medi eleni. Bydd unrhyw berson ifanc nad yw yn y system ADY eto erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2024-25 yn symud i'r system ADY ar yr adeg honno.

2.25. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol Ôl-16 yn nodi bod sefydliadau addysg bellach yn parhau i wneud cynnydd sylweddol i baratoi ar gyfer y Ddeddf ADY.

Mae penaethiaid a chyrff llywodraethu, er eu bod wedi mynegi pryderon ynglŷn â gallu'r gweithlu, yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y gall y Ddeddf ADY ei chael ac maent o blaid ei chyflwyno. Bu llawer mwy o ffocws yn y sector wrth i'r amser i roi ADY ar waith i ddysgwyr ôl-16 nesáu.

2.26. Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng ALlau a sefydliadau addysg bellach yn parhau i fynd yn gryfach ledled Cymru, ond mae angen gwneud gwaith o hyd i ddatblygu gweledigaeth a rennir rhwng ALlau, sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflawni ym maes iechyd er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ôl-16 ag ADY yn y ffordd orau bosibl. Caiff hyn ei hwyluso drwy weithdai a grwpiau gorchwyl a gorffen â ffocws.

2.27. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £700k yn 2023-24 i sefydliadau addysg bellach a swm ychwanegol o £225k i ALlau er mwyn iddynt ddatblygu prosiectau cydweithio a phartneriaeth i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio a gwella darpariaeth ddysgu ychwanegol yn lleol.

2.28. Er y gall sefydliadau addysg bellach ddiwallu anghenion y mwyafrif llethol o bobl ifanc ag ADY, mewn achosion prin, efallai y bydd angen i bobl ifanc sydd ag ADY cymhleth iawn fynychu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynol i gael eu haddysg bellach a'u hyfforddiant. O dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth arbenigol a'i chyllido. O dan y Ddeddf ADY, caiff y cyfrifoldeb hwn ei drosglwyddo i ALlau.

2.29. Caiff y gyllideb ar gyfer lleoliadau mewn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol ei throsglwyddo i awdurdodau lleol yn 2025-26. Rydym yn ymgynghori â'r ALlau ar hyn o bryd ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer trosglwyddo'r gyllideb. Mae trafodaethau cychwynnol yn cydnabod pa mor anodd yw'r penderfyniad y mae angen ei wneud ond mae ALlau yn croesawu'r arwydd cynnar a'r cyfeiriad strategol clir i gynyddu darpariaeth brif ffrwd leol i bobl ifanc ag ADY. Cydnabyddir hefyd y gwaith y mae llawer o ALlau eisoes yn ei wneud i sicrhau a datblygu'r ddarpariaeth honno yn lleol.

2.30. Mae trefniadau interim wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer 2023-25 a fydd yn galluogi ALlau i wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc a fydd yn symud i'r system ADY yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu costau'r lleoliadau hyn drwy'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol.

2.31. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud penderfyniadau a chyllido lleoliadau i'r rhai sydd ym Mlwyddyn 12 ac uwch ar hyn o bryd tan 31 Awst 2025. Bydd unrhyw ymrwymiadau o ran cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod ar gael hyd nes bod y rhaglen astudio y cytunwyd arni wedi cael ei chwblhau.

2.32. Mae'r penderfyniad i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a

hyfforddiant a'u cyllido, a sicrhau cyfleusterau cyffredinol, priodol a rhesymol i ddysgwyr ag ADY.

### Cyfranogiad plant a phobl ifanc

2.33. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i safbwyntiau dysgwyr gael eu hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio, ynghyd â safbwyntiau eu rhieni/gofalwyr. Mae Estyn yn nodi consensws ymhlith ysgolion bod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi arwain at welliant sylweddol, mawr ei angen yn y ffordd y cefnogir dysgwyr ag ADY a'u teuluoedd. Mae gan Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion ddealltwriaeth dda o'r gofynion newydd ac maent yn gadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau.

2.34. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i SNAP Cymru yn ddiweddar i gynnal cyfres o ddigwyddiadau am ddim i rieni a gofalwyr ar gyfer teuluoedd plant 0-25 oed ag ADY/Anableddau. Cymerodd bron 300 o bobl ran mewn 14 o sesiynau a gynhaliwyd mewn lleoliadau lleol ledled Cymru ac ar-lein.

2.35. Cynhaliwyd y sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb ledled Cymru a chynigiwyd cyfleoedd i rieni a gofalwyr a fu'n bresennol gael mwy o wybodaeth am roi'r system ADY ar waith yng Nghymru; rhannu eu profiadau o'r diwygiadau i ADY a'u barn am y Cod ADY â Llywodraeth Cymru; a chael cymorth a chyngor annibynnol gan dîm SNAP Cymru. Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd wyneb yn wyneb hefyd yn annog rhieni a gofalwyr i gyfarfod a chysylltu â theuluoedd eraill sy'n rhannu profiad uniongyrchol o ADY.

2.36. Mae'r sesiynau wedi rhoi adborth defnyddiol ar yr hyn sy'n mynd yn dda, ond yn bwysig ddigon, hefyd adborth rhieni a gofalwyr ar gamau gweithredu ac argymhellion i bartneriaid allweddol a'r llywodraeth i wella effeithiolrwydd y system i ddysgwyr.

2.37. Rydym wedi comisiynu Plant yng Nghymru i sefydlu rhaglen Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn nifer o leoliadau yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod llais a hawliau plant wrth wraidd gwaith cynllunio a pholisïau. Mae'r prosiect hwn wedi dechrau ac mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi.

### Y Gymraeg

2.38. Un o nodau craidd y Ddeddf ADY yw creu system ddwyieithog o gymorth i ddysgwyr ag ADY. Mae addysg cyfrwng Cymraeg i bawb, ac ni ddylai'r un plentyn gael ei adael ar ôl. Fodd bynnag, mae darparwyr cyfrwng Cymraeg a theuluoedd yn parhau i fynegi pryderon ynglŷn ag argaeledd gweithlu, asesiadau ac adnoddau yn Gymraeg er mwyn helpu i adnabod plant ag ADY a rhoi darpariaeth ADY.

2.39. Mae cynllunio darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn rhan allweddol o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol nodi yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg sut y byddant yn defnyddio canfyddiadau eu hadolygiadau o dan y Ddeddf ADY i wella darpariaeth yn y Gymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a chynllunio'r gweithlu yn y sector ADY.

2.40. Rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd i ddatblygu adnoddau Cymraeg i ddysgwyr ag ADY. Drwy'r cwmni adnoddau addysgol dwyieithog newydd ei sefydlu, 'Adnodd', rydym yn anelu at barhau i greu adnoddau cyfrwng Cymraeg newydd i gefnogi prosesau dysgu ac addysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru a nodi a chomisiynu adnoddau i gefnogi dysgwyr ag ADY yn well.

2.41. Cydnabyddir pwysigrwydd cael digon o athrawon, gweithwyr cymorth ac ymarferwyr eraill sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi dysgwyr ag ADY yng Nghynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg.Mae'n cynnwys camau gweithredu sydd â'r nod o ddatblygu gallu ac arbenigedd yn y gweithlu i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg.

2.42. Er mwyn cryfhau'r cymorth a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael yn Gymraeg i blant a phobl ifanc byddwn yn penodi Arweinydd Gweithredu ar y Gymraeg. Bydd y swyddog yn hwyluso'r broses o rannu arferion da ac annog y sector i gydweithio a gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau cymaint o wybodaeth a sgiliau arbenigol â phosibl, gan ddatblygu dull cyson o ddarparu darpariaeth Gymraeg.

**Cydweithio a mewnbwn amlasiantaethol**

2.43. Mae'r system ADY yn annog mwy o gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, sy'n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, a bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i sicrhau deilliannau cadarnhaol.

2.44. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol Dros Dro yn nodi bod gan ALlau gydberthnasau cynhyrchiol a phroffesiynol ardderchog â Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg a'u bod yn gwneud cryn ymdrech i weithio ar sail amlasiantaethol. Mae pob bwrdd iechyd wedi ymrwymo i roi cymaint o gymorth ag sy'n ymarferol i helpu ALlau ac ysgolion drwy fynychu cyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddysgwyr unigol a chyfrannu at y broses o ddatblygu CDUau. Pan fydd hyn yn gweithio'n dda, mae dulliau cydweithredol yn ei gwneud yn bosibl i feithrin dealltwriaeth ar y cyd o'r ffordd orau o gefnogi dysgwyr unigol a'u teuluoedd.

2.45. Mae Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ym mhob bwrdd iechyd wedi gwneud gwaith effeithiol i godi ymwybyddiaeth ar lefel ymarferwyr a lefel swyddogion gweithredol o ddyletswyddau'r Ddeddf a'r system ADY. Mae pob

bwrdd iechyd yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau, ond, oherwydd effaith barhaus a chronnol y pandemig, mae ymdrechion ac adnoddau yn cael eu blaenoriaethu i fynd i'r afael â'r materion difrifol hyn, a hynny'n ddealladwy, ac mae'r galw am ymwneud ymarferwyr iechyd yn fwy na'r capasiti i'w ddarparu. Er bod y Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn cael cefnogaeth dda gan arweinwyr gweithredol, ac yn dylanwadu ar newidiadau systemig i gefnogi egwyddorion y ffordd newydd o weithio ym mron pob bwrdd iechyd, mae ar gamau cynnar ei datblygiad.

2.46. Mae cryn dipyn o gynnydd wedi cael ei wneud drwy gydweithio â'r Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg. Drwy hyn bu modd i ddatblygiadau cychwynnol sefydlu dulliau cenedlaethol ar y cyd o ymdrin â materion gweithredol neu strategol penodol. Mae gweithgareddau pellach â phartneriaid cyflawni yn yr arfaeth er mwyn rhannu a mireinio'r gwaith hwn yn genedlaethol.

2.47. Mae effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng ALlau a byrddau iechyd yn amrywio, ond mae'n parhau i wella. Fodd bynnag, mae rhai llwyddiannau cynnar wedi cael eu sicrhau sydd wedi arwain at welliannau defnyddiol iawn i ddull cydgysylltiedig a rennir, er enghraifft paneli neu fforymau ADY amlasiantaethol (gan gynnwys y blynyddoedd cynnar ac ôl-16). Mae gan awdurdodau lleol bryderon ynglŷn â gallu gweithwyr proffesiynol i gymryd rhan ym mhroses y CDU yn gyson. Cred ychydig o arweinwyr ysgol nad yw cynrychiolwyr iechyd yn glir ynglŷn â'u rôl ym mhroses y CDU.

2.48. Nodir bod datblygu arferion cyson rhwng byrddau iechyd yn heriol weithiau, o ystyried bod pob un yn gwasanaethu sawl awdurdod lleol. Fel arfer, mae gan bob ALl arferion gweithredol gwahanol, systemau rheoli gwybodaeth gwahanol a ffyrdd gwahanol o gefnogi ADY. Bydd angen i fyrddau iechyd ac ALlau chwilio am ffyrdd o addasu'r ffordd y maent yn gweithredu er mwyn sicrhau cydweithio.

2.49. Mewn system sy'n graddol aeddfedu, mae angen gwneud rhagor o waith i gadarnhau disgwyliadau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, a gwireddu disgwyliadau gwaith rhyngbroffesiynol o ansawdd da rhwng cyrff sy'n atebol ar y cyd ym maes addysg ac iechyd. Bydd angen i weithgarwch gwerthuso ADY sicrhau bod barn a safbwyntiau Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ac ymarferwyr iechyd yn cael eu cofnodi, er mwyn helpu i gael dealltwriaeth gytbwys o broses weithredu amlasiantaethol.

**Cryfhau hawliau'r plentyn**

2.50. Sefydlodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i gyflwyno system lai gwrthwynebol drwy roi gwybodaeth a chyngor ar y system ADY i bobl, gwneud trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol i'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

2.51. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor diduedd ynglŷn â darpariaeth AAA/ADY ar gael i rieni, yn ychwanegol at drefniadau datrys anghydfod a gwasanaethau eirioli.

2.52. Mae SNAP Cymru yn rhoi cymorth diduedd dibynadwy i blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr ledled Cymru mewn perthynas â'r system ADY. Fel rhan o'i wasanaethau, mae SNAP Cymru yn darparu gwasanaethau datrys anghytundebau i'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn is-gontractio i sefydliadau allanol, ond mae rhai yn darparu gwasanaethau mewnol diduedd.

2.53. Mae gan Dribiwnlys Addysg Cymru awdurdodaeth i benderfynu ar apeliadau ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig a gwahaniaethu mewn ysgolion. Gall plant oedran meithrin a phobl ifanc o 16 i 25 oed gyflwyno apeliadau neu gallant gael eu cyflwyno ar eu rhan. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu darparu yn y byrdymor i swyddfa Tribiwnlysoedd Cymru er mwyn ymateb i'r llwyth gwaith ychwanegol o ganlyniad i achosion prawf a mwy o hawliau i rieni o dan y system newydd. Disgwylir i Dribiwnlysoedd Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol yn ystod 2023 er mwyn rhoi gwybodaeth am weithrediad cynnar apeliadau.

**Anghenion mwy cymhleth**

2.54. Tynnodd adroddiad blynyddol 2021/22 Estyn sylw at y ffaith bod effeithiau cymdeithasol ac emosiynol COVID-19 sy'n parhau wedi arwain at gynnydd o ran anghenion dysgwyr a mwy o alw am wasanaethau.

2.55. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol sy'n monitro ALlau yn cytuno, gan nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr ag anghenion cymhleth ym mhob grŵp oedran. Mae'n achos pryder penodol yn y blynyddoedd cynnar mewn perthynas â'r cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau at ALlau. O ganlyniad, bu angen i ALlau ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n helpu ysgolion i sefydlu dulliau o feithrin y gallu i ddiwallu anghenion.

2.56. Mae pob ALl yn nodi bod ysgolion yn wynebu galw na welwyd ei debyg o'r blaen, ac sy'n parhau, i ddarparu ar gyfer ystod lawer ehangach o anghenion nag arfer mewn perthynas â llesiant cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, gyda thuedd gynyddol o waharddiadau, amserlenni â llai o oriau, colli'r ysgol a rhai yn dewis addysg ddewisol yn y cartref. Credir bod cyllidebau llai i ysgolion wedi gwneud y sefyllfa'n waeth gan fod ysgolion yn nodi na allant fodloni gofynion cynyddol o'r fath mwyach. Mae pob ALl yn nodi bod galw cynyddol am leoliadau arbenigol, sydd dipyn yn fwy na'r adnoddau presennol.

2.57. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi grant o £9.1m i awdurdodau lleol o 2023-24, 2024-25 er mwyn ymateb i'r pwysau ychwanegol a phroblemau

cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr ag ADY.

2.58. Yn y cyfamser, mae'n amlwg inni mai'r unig ffordd gynaliadwy o ymateb i'r galw cynyddol a natur amlweddog cymorth iechyd meddwl yw drwy atal ac ymyrryd yn gynnar, ynghyd â sicrhau bod cymorth cyffredinol da ar gael a mynediad da at wasanaethau arbenigol, sef y rheswm pam rydym yn mabwysiadu dull system gyfan o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

2.59. Rydym wedi datblygu Fframwaith NYTH fel adnodd cynllunio ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn rhoi Dull System Gyfan ar waith yn eu hardaloedd. Rydym wedi penodi Arweinydd Gweithredu i NYTH yn ddiweddar, sy'n gweithio gyda phob rhan o'r Llywodraeth, gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhanddeiliaid allanol i ymgorffori NYTH yn gyfan gwbl mewn polisïau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

2.60. Mae hyn yn ategu ein dull system gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2021.Gwnaethom ddarparu £12.2m o gyllid yn 2022-23 i helpu ysgolion i ymgorffori'r canllawiau a datblygu ethos ysgol sy'n rhoi lle canolog i lesiant. Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i benodi cydgysylltwyr gweithredu fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru; gwneud nifer o ymyriadau llesiant cyffredinol ac wedi'u targedu mewn ysgolion; hyfforddi athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol ar lesiant; a sicrhau bod gwasanaeth mewngymorth CAMHS, sy'n lleoli ymarferwyr iechyd meddwl penodedig mewn ysgolion, yn cael ei ddarparu ledled Cymru.

2.61. Mae Cynllun Gwella Gwasanaethau Niwroddatblygiadol dros dair blynedd sydd wedi cael £12m o gyllid yn mynd i'r afael â'r pwysau presennol ar amseroedd aros ar gyfer asesiad niwroddatblygiadol a gwella cymorth mewn gwasanaethau. Mae'n datblygu gwasanaethau integredig a chynaliadwy a arweinir gan angen a ddarperir gan weithlu medrus a gwydn. Fodd bynnag, nid oes angen diagnosis i gael cymorth addysgol, ac ni ddylai fod oedi ychwaith cyn cael cymorth tra bod plant a phobl ifanc yn aros am asesiad.

# 3. Rheoli diwygiadau i ADY

## Cymorth i'w rhoi ar waith

3.1. Bu'r Rhaglen Trawsnewid yn hanfodol, ac yn llwyddiannus o ran rhoi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill wrth iddynt baratoi ar gyfer y system ADY. Mae Estyn yn canfod bod awdurdodau lleol a thimau cynghori ar ADY wedi rhoi cymorth buddiol i ysgolion yn ystod proses y rhaglen trawsnewid dros bedair blynedd, gan gynnwys helpu ysgolion i ddeall y Cod ADY a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd eu gwaith yn cynnwys sesiynau briffio, cyfleoedd dysgu proffesiynol, hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, gweithio mewn clwstwr a darparu deunyddiau defnyddiol.

3.2. Sefydlwyd Grŵp Llywio Cenedlaethol ar Ddiwygio ADY ym mis Mai 2022 er mwyn rhoi cyfeiriad strategol, trosolwg amlasiantaethol a chymorth i'r sector a symud y rhaglen ADY o'r cam trawsnewid, drwy'r broses o'i rhoi ar waith a thu hwnt. Penodwyd Liz Jones yn Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol Dros Dro ym mis Ebrill 2022. Parhaodd Chris Denham, Arweinydd Trawsnewid ADY (Addysg Bellach) â'r gwaith gyda sefydliadau addysg bellach i'w paratoi i roi'r diwygiadau ar waith.

3.3. Mae cyllid gweithredu wedi cael ei neilltuo ar gyfer paratoadau trawsnewid a chymorth i roi'r diwygiadau ar waith, sy'n cydnabod y pwysau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny ochr yn ochr â rheoli system AAA, gyda thros £62m o gyllid refeniw yn cael ei fuddsoddi rhwng 2020 a 2023.

3.4. Ar gyfer 2023-24, mae'r grant i roi ADY ar waith wedi cael ei gynyddu i £12m o £6.6m i Gymru gyfan. Mae £10.4m wedi cael ei roi'n uniongyrchol i ysgolion ac mae pob awdurdod lleol wedi cael £70k.

**Dealltwriaeth gyffredin o'r Ddeddf a'r Cod**

3.5. Mae'n hollbwysig gwella dealltwriaeth o gyfrifoldebau o dan y system ADY, ac mae nifer o ffynonellau wedi nodi amwysedd ynglŷn â'r cyfrifoldeb am gynllunio a chynnal CDU.

3.6. Mae Estyn wedi canfod bod arweinwyr ysgol, ar y cyfan, yn deall pryd y bydd CDU yn cael ei gynnal gan yr ysgol a phryd y bydd yn cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae wedi gweld achosion lle bu anghysondeb ac amwysedd ynglŷn â'r cyfrifoldeb am gynnal CDU.

3.7. Mae Estyn wedi codi rhai pryderon bod y fath ddiffyg dealltwriaeth o'r diffiniad o ADY neu DDdY yn arwain at ddefnydd anghyson o'r termau. Mae ychydig o arweinwyr ysgol wedi nodi bod y diffiniadau o ADY neu DDdY yn rhy eang a'u bod felly'n agored i gael eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai arweinwyr yn nodi bod gan weithwyr proffesiynol iechyd ddealltwriaeth wahanol o'r termau hefyd.

3.8. Mae'r Cod yn disgwyl i bob ALl, mewn ymgynghoriad ag ysgolion, bennu a chyhoeddi set o egwyddorion a fydd yn cael eu cymhwyso wrth benderfynu ai'r ysgol neu'r ALl ddylai sicrhau'r DDdY sydd ei hangen i ddiwallu anghenion unigolion. Mae ychydig dros hanner yr ALlau wedi cyhoeddi eu Dogfen Egwyddorion ac mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob ALl sy'n weddill i'w chwblhau yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

3.9. Fel rhan o'r Grŵp Llywio Gweithredu Cenedlaethol, rydym wrthi'n sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i wella dealltwriaeth genedlaethol gyffredin o'r dyletswyddau fel y'u disgrifiwyd yn y Cod.

**Dysgu proffesiynol**

3.10. Mae safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn nodi'n glir fod cyfrifoldeb ar bob athro ac arweinydd i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu a bod cyfrifoldeb ar bob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY i sicrhau eu bod yn nodi anghenion eu dysgwyr ac yn darparu ar eu cyfer.

3.11. Mae'r arlwy dysgu proffesiynol ar ADY sydd ar gael i ymarferwyr, arweinwyr system a chynghorwyr yn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY fel y gallant roi addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau wedi'u targedu eraill ar waith a gwneud y defnydd gorau o gyngor a chymorth arbenigol.

3.12. Mae'r llwybr dysgu proffesiynol ADY cenedlaethol ar gael i bob athro sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY, ac yn enwedig Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n chwarae rôl strategol mewn ysgolion a cholegau ac sy'n gweithredu fel y man cyswllt cyntaf i athrawon sy'n ceisio cyngor ac arweiniad ar ADY. Gall ymarferwyr addysg hefyd ddewis gwell eu gwybodaeth broffesiynol am ADY drwy ddilyn y llwybr ADY ar y Radd Meistr mewn Addysg Genedlaethol (Cymru). Mae hyfforddiant ar y system ADY ar gael i'r rhai sydd mewn rolau statudol neu rolau uwch-arweinwyr

3.13. Fel rhan o'r broses o adnewyddu'r meini prawf achredu ar gyfer rhaglenni AGA, rydym yn cryfhau'r disgwyliadau o ran cefnogi dysgwyr ag ADY fel rhan o astudiaethau craidd athrawon dan hyfforddiant.

3.14. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol yn nodi bod pob ALl wedi cynnig arweiniad a chymorth helaeth i ysgolion wrth iddynt ddatblygu CDUau unigol effeithiol. Mae'r arfer o werthuso ansawdd ac effaith CDUau yn parhau i ddatblygu ond mae'n amrywio o hyd. Mewn ychydig o ALlau, mae proses gadarn a sefydledig ar waith sydd wedi cyflwyno systemau cynaliadwy o sicrhau ansawdd CDUau a arweinir gan ysgolion. Ond mae gan bob ALl, o leiaf, brosesau sylfaenol ar gyfer sicrhau ansawdd CDUau. Mae'r adborth cynnar yn awgrymu bod ansawdd CDUau a gynhelir gan ysgolion yn amrywio ac yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol fod angen edrych eto ar ddysgu proffesiynol i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn gwella ymarfer effeithiol a chyson.

3.15. Mae'r gweithlu ehangach yn rhan annatod o ddiwygiadau effeithiol, ac rydym yn ymateb i ddiffygion ym mhob rhan o'r sector. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £6.2m i hyfforddi 10 myfyriwr Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol newydd y flwyddyn am dair blynedd rhwng 2022 a 2025.

3.16. Yn 2018, dyrannwyd dros £289k i ranbarthau dros dair blynedd i gefnogi hyfforddiant ôl-raddedig athrawon arbenigol a chynghorol dysgwyr â nam ar y synhwyrau sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol.

3.17. Rydym wedi cyllido Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector i ddatblygu cyfres o fodiwlau e-ddysgu er mwyn helpu ymarferwyr i adnabod dysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu penodol mewn ysgolion a'u cefnogi.

**Llwythi gwaith Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol**

3.18. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol yn nodi bod consensws cyffredinol ymhlith ysgolion bod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi arwain at welliant sylweddol, mawr ei angen yn y ffordd y cefnogir dysgwyr ag ADY a'u teuluoedd.

3.19. Er bod y dull gweithredu newydd hwn yn cael ei werthfawrogi a'i ystyried yn llawer gwell na'r dull gweithredu blaenorol, mae cynnal proses y CDU fel y'i bwriadwyd yn gofyn am fwy o amser nag a ragwelwyd a llawer mwy o amser na'r hyn a roddwyd i Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig o dan yr hen system.

3.20. Mae pob ALl a'r gweithlu addysg yn mynegi cryn bryder ynglŷn â phroblemau llwyth gwaith mewn ysgolion a lleoliadau wrth roi'r ffordd newydd o weithio ar waith. O ganlyniad i hynny, mae llawer o Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn nodi bod y galw ar eu hamser wedi cynyddu'n sylweddol. Hefyd, mae'r dyletswyddau statudol newydd wedi arwain at atebolrwyddau cynyddol i ysgolion sydd, yn eu tro, yn effeithio ar gyfrifoldebau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac uwch-arweinwyr. Mae llawer o ALlau yn nodi bod ysgolion yn wynebu problemau o ran cadw a recriwtio Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu'n wynebu'r risg o broblemau o'r fath.

3.21. Er bod y Cod ADY yn nodi'n glir nad yw dynodi Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dileu'r cyfrifoldebau ar y gweithlu ehangach, rydym yn ymwybodol o bryderon ynglŷn â'r llwyth gwaith cynyddol ar Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r angen i ysgolion sicrhau bod digon o gymorth i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i'w hatal rhag cael eu hynysu a'u llethu gan lwyth achosion.

3.22. Mae cyllid gweithredu gwerth £12m wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2023-24, gyda £10.4 o gyllid uniongyrchol i ysgolion er mwyn cynyddu gallu ac amser ysgolion a lleoliadau dros dro i gyflwyno dull ysgol gyfan/lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr ADY.

3.23. Bydd digwyddiadau ALN Unlocked yr Academi Genedlaethol yn rhoi fforwm i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol gefnogi ei gilydd drwy rannu profiadau ac arferion gorau.

3.24. Cytunwyd ar ddiwrnodau HMS ychwanegol i sicrhau bod dysgu proffesiynol effeithiol yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ADY a helpu i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall eu cyfrifoldebau unigol a'u cyfrifoldebau ar y cyd.

3.25. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys ymarferwyr a chynrychiolwyr undebau yn adolygu cyflogau ac amser dim cyswllt Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn gwneud argymhellion yn eu cylch erbyn mis Rhagfyr 2023. Yn yr un modd, mae grŵp gorchwyl a gorffen Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol CLlLC yn edrych ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chynorthwywyr addysgu, gan gynnwys llwyth gwaith a chyfrifoldebau a symud tuag at raddfeydd cyflog cyffredin yng Nghymru. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno adroddiad ym mis Gorffennaf 2023.

## 4. Monitro, Data a Gwerthuso

### Gwerthuso

4.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad Research i gynnal Gwerthusiad o'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nod yr ymchwil yw cynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd hyn yn cynnwys asesu effeithiolrwydd y ffordd y rhoddir y system ar waith, gan nodi unrhyw ffactorau sy'n rhwystro neu'n hwyluso'r broses o'i rhoi ar waith ac ymyriadau a allai gael eu cyflwyno i gefnogi'r broses honno, ac unrhyw effeithiau cynnar a ragwelir neu sy'n dod i'r golwg o ganlyniad i'r system newydd. Bydd y rhaglen yn gweithio'n agos gyda grwpiau rhanddeiliaid er mwyn ein helpu i asesu'r effaith.

4.2. Bydd hyn yn cynnwys datblygu model rhesymeg a damcaniaeth newid a gwerthuso'r ffordd y rhoddir y system ADY ar waith, gan gynnwys ystyried goblygiadau rhoi'r diwygiadau ar waith o ran costau, yn ogystal â nodi unrhyw effeithiau sy'n dod i'r golwg.

4.3. Bydd y gwerthusiad yn cael ei wneud ar bedwar cam. Ar ôl datblygu model rhesymeg a damcaniaeth newid, bydd y ddau gam cyntaf yn canolbwyntio ar werthuso'r ffordd y rhoddir y system ADY ar waith. Bydd arolwg o ymarferwyr yn cael ei gynnal yn ystod haf 2023 ynghyd â gwaith maes manwl gydag ysgolion/lleoliadau, rhanddeiliaid, rhieni a dysgwyr rhwng mis Hydref 2023 a mis Medi 2024. Bydd y trydydd a'r pedwerydd cam yn ystyried effeithiau cynnar a chynnydd. Bydd arolwg o ymarferwyr, rhieni a gofalwyr rhwng mis Hydref 2024 a mis Mehefin 2025 ynghyd â gwaith maes manwl gydag ysgolion/lleoliadau, rhanddeiliaid, rhieni a dysgwyr rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Medi 2026. Caiff adroddiad ei gyhoeddi ar ddiwedd pob cam o'r gwerthusiad.

### Data ADY

4.1. Cyhoeddir data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) bob blwyddyn. Dangosodd data diwethaf CYBLD ar gyfer mis Chwefror 2022 fod 74,661 o ddysgwyr AAA/ADY, o gymharu â 92,668 ym mis Ebrill 2021 (yn union cyn dechrau'r flwyddyn gyntaf o roi'r system ADY ar waith), sef gostyngiad o 19.5% (18,007 o ddysgwyr) mewn niferoedd AAA/ADY.

4.2. Caiff prif ystadegau CYBLD 2023 eu cyhoeddi ar 25 Mai a byddant yn rhoi cipolwg mwy cyfredol ar statws dysgwyr a newidiadau yn y system.

4.3. Mae'n rhy gynnar eto i ddod i gasgliadau ar sail y data, ac rydym yn parhau i fonitro'r effaith ar ddata a metrigau o ganlyniad i gyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

4.4. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i'r pwyllgor y byddai'n rhoi data mwy rheolaidd ar ddysgwyr ADY. Gall data gwybodaeth reoli sy'n cael eu casglu gan ysgolion roi cipolwg ar statws dysgwyr, ac mae'r data ar bresenoldeb wythnosol yn dangos, yn yr wythnos yn dechrau 13 Mawrth 2023, fod gan 8,867 o ddysgwyr mewn lleoliadau a gynhelir Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae 6,853 o'r rhain yn CDUau a gynhelir gan yr ysgol, ac mae 2,014 yn CDUau a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae'n nodi cyfanswm o 61,397 o ddysgwyr ag AAA neu ADY erbyn hyn.

4.5. Mae'r data a gesglir ynglŷn â phresenoldeb wythnosol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol, ond dylid bod yn ofalus iawn o ran ei chywirdeb. Mae'r data hyn yn wybodaeth reoli sy'n dod o systemau gwybodaeth reoli ysgolion unwaith yr wythnos ac nid ydynt wedi mynd drwy'r un lefel o brosesau sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol. Hefyd, nid yw rhai ysgolion yn diweddaru'r wybodaeth am AAA/ADY yn rheolaidd o ran data ar bresenoldeb, gan aros nes bod angen dychwelyd ffurflen flynyddol CYBLD.

4.6. Mae data CYBLD yn awgrymu tuedd tuag i lawr sy'n parhau o ran nifer y plant ag ADY wrth i'r system ADY ddechrau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr. Ym mis Medi 2022, ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor yn amlinellu'r rhesymau dros y niferoedd is.

4.7. Mae'n debygol y bydd nifer y plant sy'n cael eu cydnabod yn blant ag AAA neu ADY yn parhau i leihau drwy gydol y cyfnod gweithredu, yn bennaf ymhlith y plant hynny ar lefel gweithredu gan yr ysgol ar gyfer AAA, sydd bellach yn cael cymorth fel rhan o addysgu gwahaniaethol gwell ac ymarfer addysg cynhwysol.

4.8. Ers hynny rydym wedi ceisio sicrwydd gan Estyn yn ystod tymor yr hydref, 2022. Cynhaliodd ymweliadau â 10 ysgol gynradd ac uwchradd a gynhelir, gyda ffocws ar y trefniadau ADY newydd. Nodwyd lleihad sylweddol yn nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ADY ond, ar y cyfan, ymddengys fod cynnydd parhaus dysgwyr yn cael ei fonitro'n briodol mewn llawer o ysgolion, a'u bod yn parhau i gael cymorth wedi'i dargedu addas. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn esbonio bod y rhan fwyaf

o'r dysgwyr y tynnwyd eu henwau oddi ar gofrestrau ADY ysgolion yn arfer bod ar gam gweithredu gan yr ysgol o ran darpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA).

4.9. Gwnaethant dynnu sylw at y gwahanol strategaethau y mae llawer o ysgolion eisoes wedi eu rhoi ar waith i sicrhau bod anghenion y dysgwyr hyn yn cael eu diwallu o hyd, a bod eu cynnydd parhaus yn cael ei fonitro'n briodol. Er enghraifft, cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr, uwchsgilio staff er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ddarpariaeth gyffredinol a defnyddio amrywiaeth o ddata i fonitro cynnydd pob dysgwr. Fodd bynnag, nododd Estyn fod llawer o ysgolion ar gamau cynnar rhoi'r prosesau hyn ar waith ac nad oes ganddynt ddulliau cadarn o'u monitro na'u gwerthuso.

4.10. Bydd adolygiad thematig Estyn o roi ADY ar waith a gynhelir yn ystod 2023 yn rhoi rhagor o ddirnadaethau wrth i'r broses fynd rhagddi.